# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 3 Tachwedd 2016

Amser: 09.18 - 15.00

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3775

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Dai Lloyd AC (Cadeirydd)<br>Dawn Bowden AC<br>Jayne Bryant AC<br>Angela Burns AC<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Caroline Jones AC<br>Julie Morgan AC<br>Lynne Neagle AC |
| Tystion: | Rhiannon Tudor Edwards, Cyfarwyddwr Ymchwil Economeg Iechyd, Prifysgol Bangor<br>Dr Andrew Goodall, Llywodraeth Cymru<br>Alan Brace, Llywodraeth Cymru<br>Albert Heaney, Llywodraeth Cymru<br>Dr Frank Atherton, Prif Swyddog Meddygol, Chief Medial Officer<br>Chris Tudor-Smith, Llywodraeth Cymru |

| | |
|---|---|
| | Chris Brereton, Llywodraeth Cymru<br>Andrew Evans, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Sarah Beasley (Clerc)<br>Claire Morris (Ail Glerc)<br>Zoe Kelland (Dirprwy Glerc)<br>Gareth Pembridge (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Stephen Boyce (Ymchwilydd)<br>Sarah Hatherley (Ymchwilydd)<br>Philippa Watkins (Ymchwilydd)<br>Dr Paul Worthington (Ymchwilydd) |

**Trawsgrifiad**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod (PDF 429KB) Gweld fel HTML (245KB)

## 1 Paratoi ar gyfer craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017/18

1.1 Clywodd y Pwyllgor gan yr Athro Rhiannon Tudor Edwards, Cyfarwyddwr Ymchwil Economeg Iechyd, Prifysgol Bangor, fel rhan o'i baratoadau ar gyfer craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017-18.

## 2 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

2.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

## 3 Craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017-18

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Vaughan Gething AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon; Rebecca Evans AC, Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol; Andrew Goodall, Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/Prif Weithredwr GIG Cymru; Alan Brace, Cyfarwyddwr Cyllid; ac Albert Heaney, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

4.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig.

## 5 Trafod y dystiolaeth a gafwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon a Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol

5.1. Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon a Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

5.2 Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r Cadeirydd, yn dilyn y sesiwn hon, yn ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon a Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn gofyn rhai cwestiynau ychwanegol a gwneud rhai sylwadau ychwanegol ynghylch y gyllideb ddrafft.

## 6 Sesiwn friffio dechnegol ar Fil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)

6.1 Cafodd y Pwyllgor sesiwn friffio dechnegol ar Fil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) gan Dr Frank Atherton, y Prif Swyddog Meddygol, Chris Tudor-Smith, yr Uwch Swyddog Cyfrifol, Chris Brereton, Prif Swyddog Iechyd yr Amgylchedd ac Andrew Evans, y Prif Swyddog Fferyllol.